



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru:

**Tystiolaeth atodol i'r Comisiwn ar
Gyfiawnder yng Nghymru - Y Bil
Llywodraeth a Chyfreithiau yng
Nghymru**

Creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru, a datganoli cyfrifoldebau am blismona a chyfiawnder: y cynigion a wnaed ym Mil Drafft Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru

Cefndir

1. Mae'r papur tystiolaeth atodol hwn yn canolbwyntio ar Fil Drafft Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 fel dewis amgen arfaethedig i Fil Cymru a oedd yn cael ei ystyried bryd hynny gan Senedd y DU (ac a ddaeth yn Ddeddf Cymru 2017). Mae'r papur yn esbonio sut y bwriadwyd i Fil Drafft Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru (y cyfeirir ato yng ngweddill y papur hwn fel y Bil amgen) weithio ac mae'n nodi sut y gellid bod wedi datrys materion ymarferol o fewn y cyfnodau o amser a ragwelwyd ganddo. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r papurau tystiolaeth eraill a gyflwynwyd eisoes i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.

2. Yn ystod blynyddoedd cynnar datganoli (1999-2006) cyfyngedig iawn oedd y pwerau a drosglwyddwyd i Gymru ac, yn yr un modd, roedd y strwythur llywodraethu a grëwyd i arfer y pwerau hyn (sef model awdurdodau lleol i bob pwrpas, er ei fod yn un a allai greu llywodraeth **de facto** drwy ddefnyddio system ddirprwyo gymhleth) yn ddiuchelgais, yn bendant o'i gymharu â'r Alban.

3. Datblygodd y system fesul tipyn gan adeiladu'n raddol ar yr hyn a oedd wedi digwydd yn flaenorol. I bob pwrpas roedd yn demarateiddio'r system a grëwyd yn y 1960au pan grëwyd y Swyddfa Gymreig. Canolbwyntiodd beirniadaeth o'r trefniadau hyn ar y ffaith nad oedd y pwerau yn **ddigon dwfn** (h.y. eu bod yn gyfres o bwerau gweithredol penodol wedi'u cyfyngu gan eu cyd-destun statudol) a'r ffaith nad oedd y pwerau yn ddigon eang (h.y. pam y gallai'r Cynulliad ymdrin ag un mater ond nid mater arall yr oedd yn amlwg ei fod yn gysylltiedig ag ef).

4. Ehangodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru, yn enwedig ar ôl i'r newid i bwerau deddfu

llawn gael ei gymeradwyo'n glir gan y refferendwm yn 2011.

5. Fodd bynnag, ni chafodd y materion a nodwyd uchod eu datrys yn llawn drwy weithredu Deddf 2006. Roedd **ffin amrwd** o ran y pwerau a oedd wedi'u datganoli a'r pwerau nad oeddent wedi'u datganoli. Ac roedd y ffin amrwd yn ymwneud â dyfnder ac ehangder y pwerau – y dyfnder oherwydd y nifer fawr o gyfyngiadau ar ddeddfu a oedd yn gofyn am gydsyniad Llywodraeth y DU er bod pwnc fel arall wedi'i ddatganoli, a'r ehangder am fod nifer y pynciau a ddatganolwyd – er iddi gael ei chynyddu – yn dal i gyfateb, fwy neu lai, i nifer y pynciau a ddatganolwyd i ddechrau yn 1999, a oedd, yn eu tro, yn seiliedig ar hen bwerau'r Swyddfa Gymreig.

6. Ac er bod creu gweithrediaeth ffurfiol a deddfwrfa gyflawn yn gam mawr ymlaen, ni lwyddodd i ddatrys problem trefn gyfansoddiadol yn llawn. Dechreuodd y pwerau a ddatganolwyd gael y blaen ar y seilwaith cyfansoddiadol, a hynny am fod pwerau deddfu llawnach yn golygu bod deddfwrfa wedi'i chreu i lunio deddfau a oedd yn wahanol i Gymru, ac eto Llywodraeth y DU a oedd yn parhau i fod yn gyfrifol am **orfodi a gweinyddu'r** deddfau hynny (yn bennaf drwy'r system lysoedd). Y rheswm dros hyn oedd nad oedd y system gyfiawnder ehangach wedi'i datganoli ac, yn wahanol i unrhyw ddeddfwrfa arall ym myd cyfraith gyffredin, y byddai deddfau a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol, i bob pwrpas, yn rhan o awdurdodaeth gyfreithiol deddfwrfa arall.

7. Felly, roedd y cyfrifoldeb am rai materion wedi'i ddatganoli o hyd tra nad oedd materion a oedd yn ymwneud yn agos â nhw wedi'u datganoli ac, o safbwynt cyfansoddiadol, roedd y rhaniad yn golygu bod tensiwn parhaol rhwng gweinyddiaethau a diffyg eglurder ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am beth.

8. Felly, er gwaethaf y newidiadau a wnaed gan Ddeddf Cymru 2017, roedd y system yn ei hanfod yn gymhleth ac mae'n parhau felly.

Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru

9. Diben y Bil amgen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 oedd nodi sut y gellid rhoi system sefydlog a fyddai'n addas i'r dyfodol ar waith. Ymdriniodd â'r ffin amrwd a'r methiannau o ran trefn gyfansoddiadol sy'n tanseilio'r system bresennol.

10. Wrth ddrafftio'r Bil amgen, yr egwyddorion arweiniol oedd:

- **sybsidiaredd:** dylid datganoli cyfrifoldeb deddfwriaethol a gweinidogol am faterion yng Nghymru oni bai bod rheswm da dros gadw pŵer ar lefel y DU neu ar lefel Cymru a Lloegr. Felly, darparodd y Bil amgen ar gyfer datganoli cyfrifoldeb am blismona a chyfiawnder (yn ogystal â rhai materion eraill);
- **eglurder:** nododd y Bil amgen y setliad datganoli mewn ffordd resymegol sy'n fwy dealladwy i'r lleygwr a gyda llinell glir wedi'i thynnu rhwng yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn nad yw wedi'i ddatganoli;
- **setliad parhaol:** wrth ddarparu ar gyfer awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru, cydnabu'r Bil amgen yr ymwahanu yn y gyfraith sy'n ganlyniad naturiol i greu deddfwrfa Gymreig; ac wrth ddarparu ar gyfer datganoli cyfiawnder yn yr hirdymor, byddai'r Bil amgen yn sefydlu setliad datganoli sefydlog, cydlynol, ymarferol a hirdymor yn unol â'r Alban a Gogledd Iwerddon.

11. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y Bil amgen wedi cydnabod hefyd oblygiadau ymarferol y newidiadau hyn. Felly, cynigiodd broses newid fesul cam dros gyfnod pontio o hyd at 10 mlynedd.

Cam 1: creu awdurdodaeth gyfreithiol 'ar wahân' i Gymru

12. Roedd Cam 1, a fyddai'n dechrau'n fuan ar ôl i'r Bil amgen gael Cydsyniad Brenhinol, yn cynnwys rhannu awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr yn awdurdodaeth i Gymru ac yn awdurdodaeth i Lloegr.

13. Mater o ffurf yw hwn i raddau helaeth, nad oes iddo fawr ddim goblygiadau ymarferol uniongyrchol. Byddai'n cynnwys creu corff ffurfiol o gyfreithiau i Gymru (yn debyg i gyfraith yr Alban a chyfraith Gogledd Iwerddon) a chyflwyno'r cysyniad o lys Cymreig a barnwr Cymreig. Fodd bynnag, i ddechrau byddai llysoedd Cymru a'r farnwriaeth, er y byddent ar wahân, yn parhau i gael eu gweinyddu gan Weinyddiaeth Gyfiawnder y DU. Felly, byddai hyn yn golygu trefniadau **ffurfiol** gwahanol ar gyfer gweinyddu'r gyfraith yng Nghymru ond, i ddechrau o leiaf, prin fyddai'r newidiadau **ymarferol**.

14. Mae Cymal 3 o'r Bil amgen yn cynnwys y gosodiad canlynol:

“There is to be a legal jurisdiction of Wales.”

Darperir ar gyfer yr hyn mae'n ei olygu a sut y caiff ei gyflawni yn Rhan 5 o'r Bil amgen.

15. O ran y gyfraith ei hun, y darpariaethau allweddol yw **cymalau 77 a 78 (gweler isod)**. Eu heffaith fyddai rhannu'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr ar adeg rhannu'r awdurdodaeth gyfreithiol bresennol yn ddau gorff newydd o gyfraith, sef cyfraith Cymru a chyfraith Lloegr. Byddai hyn yn golygu bod yr holl gyfreithiau sy'n rychwantu Cymru a Lloegr ar hyn o bryd, ar wahân i'r rhai sy'n gymwys i Lloegr yn unig, yn dod yn gyfreithiau Cymru. Am fod hyn yn ymwneud â'r hyn sy'n gyfystyr â chorff cyfreithiau ffurfiol yr awdurdodaeth newydd, nid yw'r ffin rhwng yr hyn sydd wedi'i ddatganoli (a'r hyn nad yw wedi'i ddatganoli) yn berthnasol at y dibenion hyn.

16. Mae hyn yn ymdrin â'r system anghyson bresennol lle mae cyfreithiau Cymru yn rhan o'r hyn sydd yn ei hanfod yn awdurdodaeth gyfreithiol Seisnig a weinyddir gan system lysoedd sy'n rhychwantu Cymru a Lloegr.

17. Fel y dangosir yn **Atodiad 1**, ar hyn o bryd mae tair awdurdodaeth gyfreithiol yn y DU. Golyga hyn fod Senedd y DU yn gwneud deddfau a fynegir i rychwantu Cymru a Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (neu gyfuniad o'r tair). Mae'r system hon yn rhagflaenu datganoli ac yn adlewyrchu'r ffaith bod elfennau o'r gyfraith bob amser wedi bod yn **wahanol** yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

18. Felly, pan newidiwyd cyfansoddiad y DU er mwyn darparu ar gyfer gwahaniaethau **pellach** – drwy greu deddfwrfeydd newydd yn 1999 – roedd systemau yn bodoli (ar ffurf awdurdodaethau cyfreithiol ar wahân) i ystyried y gwahaniaethau hynny¹. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir yn achos deddfwrfa Cymru (nac yn wir – ni ddylid anghofio – mewn perthynas â Senedd y DU yn deddfu ar gyfer Lloegr yn unig).

19. Câi'r sefyllfa hon ei hunioni, a'i symleiddio, drwy greu'r cysyniad o gyfraith Cymru a chydgrynhoi (ac, felly, ail-wneud) cyfraith statud mewn meysydd datganoledig (yn ogystal â'i diwygio yn y ffordd arferol). Y nod wedyn fyddai sicrhau, yng nghyfraith Cymru, fod cyfraith statud ddatganoledig yn cael ei chreu gan y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru. Yn yr un modd, felly, byddai hyn hefyd yn darparu ar gyfer diffinio cyfraith (wirioneddol) Seisnig yn gliriach. Byddai Lloegr yn cael pob un o'r manteision a amlinellir mewn perthynas â Chymru hefyd.

20. Wrth gyfeirio yma at y “gyfraith” (cyfraith Cymru a Lloegr), efallai ei bod yn werth pwysleisio bod hyn yn cynnwys nid yn unig gyfraith statud (p'un a gafodd ei gwneud i Gymru ar faterion nas cadwyd yn ôl gan y Cynulliad Cenedlaethol neu ar faterion a gadwyd yn ôl gan Senedd y DU), ond hefyd cyfraith gyffredin (cyfeiria cymal 78 (3) at hyn). Felly, byddai hyn yn golygu ei bod yn bosibl y bydd y gyfraith gyffredin yng Nghymru a Lloegr yn ymwahanu. Fodd bynnag, ar wahân i gyfraith gyffredin sy'n deillio o ddehongli cyfraith statud, mae ymwahanu o ran y gyfraith gyffredin yn debygol o fod yn broses araf iawn am y byddai'n cymryd amser i gysail ddatblygu'n wahanol yng Nghymru – ac mae hon yn broses a fyddai'n cael ei goruchwyllo, sut bynnag, gan y Goruchaf Lys ar lefel y DU.

¹ Mae hefyd yn werth nodi bod llawer mwy o'r gyfraith sy'n rychwantu'r Alban a Gogledd Iwerddon yn cael ei gwneud – cyn 1999 – ar wahân ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cynyddodd y broses hon ar ôl 1999 sy'n golygu yng nghyfraith yr Alban, er enghraifft, fod llawer o'r gyfraith statud mewn meysydd datganoledig wedi cael ei gwneud yn benodol ar gyfer yr Alban.

Establishment of two distinct jurisdictions

77 Legal jurisdictions of Wales and of England

The legal jurisdiction of England and Wales becomes two legal jurisdictions, that of Wales and that of England.

78 The law of Wales and the law of England

- (1) The law of England and Wales is divided into the law of Wales and the law of England.*
- (2) All of the law that extends to England and Wales immediately before the coming into force of this section—*
 - (a) except in so far as it applies only in relation to England, is to extend to Wales (and becomes the law of Wales), and*
 - (b) except in so far as it applies only in relation to Wales, is to extend to England (and becomes the law of England).*
- (3) In this section “law” includes—*
 - (a) rules and principles of common law and equity,*
 - (b) provision made by virtue of an Act of the United Kingdom Parliament, an Act of the Welsh Parliament or an Act or Measure of the National Assembly for Wales, and*
 - (c) provision made pursuant to the prerogative.*
- (4) Any provision of any enactment or instrument enacted or made, but not in force, when subsection (1) comes into force is to be treated for the purposes of that subsection as part of the law that extends to England and Wales (but this subsection does not affect provision made for its coming into force).*

21. Er mwyn creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru (a'r corff cysylltiedig ar wahân o gyfreithiau i Gymru) byddai hefyd angen creu llysoedd i Gymru. Wrth gwrs, mae'r llysoedd hyn yn bodoli eisoes ond byddent yn cael eu hailgyfansoddi fel llysoedd Cymreig ar wahân,

ar yr un ffurf i ddechrau o leiaf. Byddent yn parhau i gael eu gweinyddu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (drwy Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM) yn ystod y cyfnod pontio. **Cymalau 79 ac 80** o'r Bil amgen a greodd Lysoedd Cymru:

79 Senior Courts system

- (1) The Senior Courts of England and Wales cease to exist (except for the purposes of sections 83(3) and (4)) and there are established in place of them—*
 - (a) the Senior Courts of Wales, and*
 - (b) the Senior Courts of England.*

- (2) *The Senior Courts of Wales consist of—*
- (a) *the Court of Appeal of Wales,*
 - (b) *the High Court of Justice of Wales, and*
 - (c) *the Crown Court of Wales,*
- each having the same functions in Wales as are exercisable by the corresponding court in England and Wales immediately before subsection (1) comes into force.*
- (3) *The Senior Courts of England consist of—*
- (a) *the Court of Appeal of England,*
 - (b) *the High Court of Justice of England, and*
 - (c) *the Crown Court of England,*
- each having the same functions in England as are exercisable by the corresponding court in England and Wales immediately before subsection (1) comes into force.*
- (4) *For the purposes of this Part—*
- (a) *Her Majesty’s Court of Appeal in England is the court corresponding to the Court of Appeal of Wales and the Court of Appeal of England,*
 - (b) *Her Majesty’s High Court of Justice in England is the court corresponding to the High Court of Justice of Wales and the High Court of Justice of England, and*
 - (c) *the Crown Court constituted by section 4 of the Courts Act 1971 is the court corresponding to the Crown Court of Wales and the Crown Court of England.*
- (5) *Subject to section 84—*
- (a) *references in enactments, instruments and other documents to the Senior Courts of England and Wales (however expressed) have effect (as the context requires) as references to the Senior Courts of Wales or the Senior Courts of England, or both; and*
 - (b) *references in enactments, instruments and other documents to Her Majesty’s Court of Appeal in England, Her Majesty’s High Court of Justice in England or the Crown Court constituted by section 4 of the Courts Act 1971 (however expressed) have effect (as the context requires) as references to either or both of the courts to which they correspond.*

80 County court and family court

- (1) *The county court and the family court cease to exist (except for the purposes of sections 83(3) and (4)) and there are established in place of them—*
- (a) *the county court of Wales and the family court of Wales with the same functions in Wales as are exercisable by the county court and the family court (respectively) immediately before this subsection comes into force, and*
 - (b) *the county court of England and the family court of England with the same functions in England as are exercisable by the county court and the family court (respectively) immediately before this subsection comes into force.*

- (2) *For the purposes of this Part—*
- (a) *the county court is the court corresponding to the county court of Wales and the county court of England, and*
- (b) *the family court is the court corresponding to the family court of Wales and the family court of England.*
- (3) *Subject to section 84 references in enactments, instruments and other documents to the county court or the family court (however expressed) have effect (as the context requires) as references to either or both of the courts to which they correspond.*

22. Gwnaeth **Cymal 83** o'r Bil amgen ddarpariaeth ynghylch y ffordd y câi'r cyrff o gyfreithiau a oedd newydd eu sefydlu (cyfraith Cymru a chyfraith Lloegr) eu cymhwyso at y llysoedd a oedd newydd

eu hailffurfio (llysoedd Cymru a Lloegr). Mae hyn yn cynnwys darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud ag achosion yn yr arfaeth sydd gerbron y llysoedd.

83 Division of business between courts of Wales and courts of England

- (1) *The Senior Courts of Wales, the county court of Wales, the family court of Wales and the justices for local justice areas in Wales are to apply the law extending to Wales (including the rules of private international law relating to the application of foreign law).*
- (2) *The Senior Courts of England, the county court of England, the family court of England and the justices for local justice areas in England are to apply the law extending to England (including the rules of private international law relating to the application of foreign law).*
- (3) *All proceedings, whether civil or criminal, pending in any of the Senior Courts of England and Wales, the county court or the family court (including proceedings in which a judgment or order has been given or made but not enforced) must be transferred by that court to whichever of the courts to which that court corresponds appears appropriate.*

23. Gwnaeth y Bil amgen ddarpariaeth ynghylch y farnwriaeth hefyd. I ddechrau, byddai holl farnwyr presennol awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr yn dod yn farnwyr yn Llysoedd Cymru a Llysoedd Lloegr. Mesur pontio oedd hwn ond mae'n un a fyddai'n debygol o gael ei fabwysiadu, yn ymarferol, yn ystod y cyfnod pontio gan farnwyr newydd sy'n cael eu penodi (drwy brosesau sy'n bodoli eisoes) yn farnwyr i'r ddau lys cyfatebol (llysoedd Cymru

a llysoedd Lloegr). Ar ôl y cyfnod pontio, câi penodiadau i'r farnwriaeth eu gwneud ar wahân ar gyfer Cymru, ond byddai lle i fod yn hyblyg o hyd (yn modol ar gytundeb â Llywodraeth y DU) naill ai drwy drefniadau 'cross-ticketing' neu drefniadau benthyca llai ffurfiol y gallai barnwyr o Loegr eistedd yng Nghymru (neu fel arall) oddi tanynt. Mae **Cymal 81** yn cynnwys y ddarpariaeth ynghylch y farnwriaeth:

81 *Judiciary etc.*

- (1) *All of the judges, judicial office-holders and other officers of Her Majesty's Court of Appeal in England or Her Majesty's High Court of Justice in England become judges, judicial office-holders or officers of both of the courts to which that court corresponds.*
- (2) *All of the persons by whom the jurisdiction of the Crown Court constituted by section 4 of the Courts Act 1971 is exercisable become the persons by whom the functions of both of the courts to which that court corresponds are exercisable except that (despite section 8(2) of the Senior Courts Act 1981)–*
 - (a) *a justice of the peace assigned to a local justice area in England may not by virtue of this subsection exercise functions of the Crown Court of Wales, and*
 - (b) *a justice of the peace assigned to a local justice area in Wales may not by virtue of this subsection exercise functions of the Crown Court of England.*
- (3) *All of the judges, judicial office-holders and other officers of the county court become judges, judicial office-holders or officers of the county court of Wales and the county court of England.*
- (4) *All of the judges, judicial office-holders and other officers of the family court become judges, judicial office-holders or officers of the family court of Wales and the family court of England except that (despite section 31C(1)(y) of the Matrimonial and Family Proceedings Act 1984)–*
 - (a) *a justice of the peace assigned to a local justice area in England is not a judge of the family court of Wales, and*
 - (b) *a justice of the peace assigned to a local justice area in Wales is not a judge of the family court of England.*

24. Gwnaed darpariaeth debyg (**cymal 82**) ar gyfer ymarferwyr cyfreithiol presennol fel y byddai'r rhai sy'n ymarfer yng Nghymru a Lloegr yn gallu parhau i wneud hynny yn y ddwy awdurdodaeth newydd. Er na chafodd ei nodi'n benodol yn y Bil amgen, polisi Llywodraeth Cymru oedd y dylai'r sefyllfa hon barhau o leiaf nes i'r system gyfiawnder gael ei datganoli'n llawn. Ar ôl hynny, er ei bod yn debygol y byddai angen proses ffurfiol wahanol, yn ymarferol mae'r syniad y gallai cyfreithiwr o Loegr – fwy neu lai fel hawl – ymarfer yng Nghymru (ac fel arall) yn rhywbeth a ddylai barhau am gyfnod amhenodol.

Unwaith eto, byddai'n rhaid cytuno ar hyn ond nid oes unrhyw awgrym y byddai'n achosi problemau; ac, yn wir, mae cynsail i hyn eisoes yn y DU. Mae gan gyfreithiwr sydd â'r hawl i ymarfer yng Nghymru a Lloegr hawl i ymarfer hefyd yng Ngogledd Iwerddon drwy lenwi ffurflen gais² a thalu ffi. (Ar y llaw arall, mae'n rhaid i gais gan gyfreithiwr o'r Alban gael ei ystyried gan Bwyllgor Addysg Cymdeithas Cyfreithwyr Gogledd Iwerddon – sef sefyllfa sy'n adlewyrchu'r ffaith mwy o wahaniaeth rhwng yr egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'r systemau cyfreithiol).

² Mae hyn yn gofyn am "Certificate of Good Standing" gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr sy'n datgan bod yr ymgeisydd yn berson addas a chymwys i ymarfer fel cyfreithiwr yng Ngogledd Iwerddon; copi ardystiedig o 'Dystysgrif Derbyn i'r Rhestr o Gyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr' wreiddiol yr ymgeisydd; disgrifiad byr o brofiad yr ymgeisydd ers cael ei dderbyn i'r rhestr; a dau eirida.

82 Legal professions

- (1) *Every legal practitioner who would (but for this Part) at any time after the coming into force of this Act be entitled to carry on a reserved legal activity for the purposes of the law of England and Wales, in proceedings in England and Wales or before the courts of England and Wales, has at that time the same entitlement for the purposes of the law of England and the law of Wales, in proceedings in England and proceedings in Wales and before the courts of England and the courts of Wales.*
- (2) *In this section—*
- a “legal practitioner” means every solicitor, barrister, notary, legal executive, licensed conveyancer, patent attorney, trade mark attorney, law costs draftsman, accountant or other person who, in accordance with the Legal Services Act 2007 (c. 29), is entitled to carry on a reserved legal activity;*
- a “reserved legal activity” has the same meaning as in the Legal Services Act 2007.*

25. Fel y nodwyd uchod byddai'r newidiadau hyn yn rhai ffurfiol yn bennaf a'u diben, i bob pwrpas, fyddai gosod sylfaen gychwynnol gyfer newid pellach.

Cam 2: cyfnod pontio – datblygu gallu ac adnoddau

26. Darparodd y Bil amgen ar gyfer cyfnod pontio o 10 mlynedd er mwyn darparu ar gyfer proses drefnus o ddatganoli plismona a chyfiawnder. Byddai'r cyfnod hwn yn rhoi amser i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gytuno ar drefniadau newydd ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei gallu a'i hadnoddau. Hefyd, o dan y model hwn, gellid mynd ati i gyflawni'r broses yn raddol drwy ddatganoli (neu rannol ddatganoli) elfennau penodol cyn rhai eraill.

27. Wrth gwrs, byddai'r broses hon yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth a Senedd y DU dderbyn yr egwyddor o ddatganoli plismona a'r system gyfiawnder ac, yn eu tro, gytuno ar broses raddol o ddatblygu'r seilwaith sydd ei angen ymhellach dros amser. Nid oes unrhyw reswm dros awgrymu, pe bai Llywodraeth y DU yn derbyn yr egwyddor gyffredinol, na ellid mabwysiadu systemau pragmatig ac ymarferol megis rhoi hawl i farnwyr ymarfer yng Nghymru a Lloegr neu systemau rheoleiddio a rennir, er mwyn hwyluso'r broses o ddatblygu system Cymru.

Newid i'r pwerau a ddatganolwyd

28. Byddai'r Bil amgen yn newid y pwerau sydd wedi'u datganoli i Gymru yn sylweddol ond, ar y cyfan, ni fyddai'n gwneud hynny ar unwaith. Byddai hyn yn cynnwys gwneud newid o ran y nifer fawr o gyfyngiadau sydd ar y system lywodraethu yng Nghymru, yn ogystal â'r pynciau sydd wedi'u cadw'n ôl. Byddai rhai o'r newidiadau hyn yn dod i rym ar unwaith ond byddai'n rhaid gohirio'r mwyafrif, a'r rhai pwysicaf, am gyfnod o hyd at 10 mlynedd. Byddai hyn wedi cael ei gyflawni drwy greu trydydd categori (yn ychwanegol at faterion a gadwyd yn ôl a materion datganoledig) o 'faterion gohiriedig'.

29. Yn y tymor hwy, câi plismona, y gwaith o weinyddu cyfiawnder, cyfraith sifil a throseddol a chyfraith teulu eu datganoli, ond diffiniodd y Bil amgen y rhain fel 'materion gohiriedig' na ddylid eu datganoli'n llawn tan 'ddyddiad trosglwyddo gohiriedig'. Yn y Bil amgen pennwyd 1 Mawrth 2026 fel y dyddiad hwn (sef 10 mlynedd o ddyddiad cyhoeddi'r Bil) neu unrhyw ddyddiad diweddarach y cytunwyd arno. Er na chât'r materion hynny eu datganoli i ddechrau, yn ystod y cyfnod pontio hwn, byddai'r ddeddfwrfa Gymreig yn gallu gwneud rhywfaint o ddarpariaeth ynghylch materion gohiriedig, pe bai gwneud hynny yn deillio o gyfraith ddatganoledig neu'n gysylltiedig â chyfraith ddatganoledig neu'n briodol ar gyfer gwneud y gyfraith honno yn effeithiol neu ei gorfodi.

30. Yn bwysicach na hynny, ac fel ffordd o alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu ei arbenigedd yn y materion hyn, cynigiwyd darpariaeth er mwyn i'r Cynulliad allu datblygu ei ddeddfwriaeth ei hun yn y meysydd gohiriedig hyn a fyddai'n mynd ymhellach na dim ond gwneud darpariaeth ategol, ond byddai hyn yn ddarostyngedig i broses anghymeradwyo

a fyddai'n agored i Senedd y DU, a fyddai'n gallu atal y Cynulliad Cenedlaethol, felly, rhag pasio unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath yn ystod y cyfnod pontio hwn.

31. Roedd y rhestr lawn o faterion gohiriedig (y mae pob un ohonynt yn berthnasol i drafodaethau'r Comisiwn) fel a ganlyn:

DEFERRED MATTERS

Preliminary

- 125 *The matters specified in the Sections of this Part are deferred matters.*
- 126 *The deferred matters are subject to any exceptions specified in the Sections and are to be interpreted in accordance with any interpretation provisions in the Sections.*
- 127 *Any exceptions or interpretation provisions in a Section relate only to that Section (so that an entry under the heading "exceptions" does not affect any other Section).*
- 128 *This Part ceases to have effect on the deferred transfer date.*

Section 60 – Courts and tribunals

- 129 *Courts and tribunals, including—*
- (a) their jurisdiction and powers;*
 - (b) judicial decision making (including judicial precedent);*
 - (c) the judiciary of courts and tribunals and members of tribunals (including their appointment and remuneration).*
- 130 *Civil proceedings (including family and other non-criminal proceedings), including—*
- (a) disclosure;*
 - (b) evidence;*
 - (c) procedure;*
 - (d) remedies;*
 - (e) enforcement of orders of courts or tribunals;*
 - (f) costs;*
 - (g) limitation of actions.*

131 *Criminal proceedings, including—*

- (a) bail;*
- (b) custody pending trial;*
- (c) disclosure;*
- (d) evidence;*
- (e) procedure;*
- (f) prosecutors;*
- (g) sentencing.*

132 *The use of the Welsh language in courts.*

Exceptions

Tribunals (including their establishment, abolition, judiciary and members) that wholly or mainly make determinations on matters that do not relate to reserved matters.

The jurisdiction and powers of courts and tribunals in relation to disability discrimination in the education and training sector.

Welfare advice to courts, representation and provision of information, advice and other support to children ordinarily resident in Wales and their families and Welsh family proceedings officers.

Section 61 – Criminal law

133 *Capacity to commit crime and immunity from prosecution.*

134 *Creating, modifying or abolishing offences against the person and penalties for such offences, including—*

- (a) homicide and conduct related to homicide;*
- (b) suicide and conduct related to suicide;*
- (c) assault or battery (including assault or battery with aggravating features).*

135 *Creating, modifying or abolishing sexual offences and penalties for such offences.*

136 *Creating, modifying or abolishing offences against property or property and persons, and penalties for such offences including—*

- (a) criminal damage;*
- (b) theft, robbery or burglary;*
- (c) handling stolen goods;*
- (d) taking property without consent;*
- (e) making off without payment;*
- (f) blackmail, forgery, fraud or deception;*
- (g) piracy.*

- 137 *Creating, modifying or abolishing offences relating to child cruelty, child neglect, child abduction, child destruction, concealment of birth and penalties for such offences.*
- 138 *Creating, modifying or abolishing offences against public order or public security and penalties for such offences, including—*
- (a) riot, violent disorder or affray;*
 - (b) incitement to hatred;*
 - (c) offences relating to public meetings, processions and assemblies.*
- 139 *Creating, modifying or abolishing offences against privacy, decency or morality and penalties for such offences, including—*
- (a) disclosing private sexual images;*
 - (b) public nudity;*
 - (c) obscene communications, performances, publications or displays.*
- 140 *Creating, modifying or abolishing offences against religion and penalties for such offences.*
- 141 *Creating, modifying or abolishing offences against the administration of justice and penalties for such offences, including—*
- (a) perjury;*
 - (b) contempt of court;*
 - (c) obstructing the course of justice;*
 - (d) escape from lawful custody.*
- 142 *Creating, modifying or abolishing offences relating to bribery and penalties for such offences.*
- 143 *Creating, modifying or abolishing offences relating to offensive weapons and penalties for such offences.*
- 144 *Creating, modifying or abolishing inchoate offences and penalties for such offences, including—*
- (a) encouraging or assisting crime;*
 - (b) conspiracy;*
 - (c) attempt.*

Interpretation

“Offensive weapon” means any article made or adapted for use for causing injury to the person, or intended by the person having it with him or her for such use by that person or another person.

Section 62 – Private law

- 145 *Private law.*
- 146 *Private international law.*

Section 63 – Family law

- 147 *Family law.*
Exception
Adoption agencies and their functions.

Section 64 – Policing

- 148 *The provision, supervision and regulation of police forces.*
149 *The prevention, investigation and detection of crime by the police.*
150 *The maintenance of public order by the police.*
Exception
Collaboration arrangements involving the police and Welsh public authorities with mixed functions or no reserved functions.

Section 65 – Prisons and other places of detention

- 151 *Provision and regulation of facilities for the detention of persons under arrest, persons on remand and offenders (including the appointment, management and functions of officers in the facilities).*
Exception
Secure accommodation for children and young people provided by local authorities.

Section 66 – Offender management

- 152 *Probation.*
153 *Arrangements for the escort of detained offenders and persons under arrest or on remand.*

Section 67 – Legal Professions, legal services and claims management

- 154 *Regulation of the legal profession, legal services and claims management.*

Section 68 – Legal aid

- 155 *Legal aid.*

Section 69 – Arbitration

- 156 *Commercial arbitration.*

Section 70 – Criminal records

- 157 *Criminal records.*
Exception
Disclosure and barring to safeguard vulnerable groups.

Section 71 – Compensation for persons affected by crime and miscarriages of justice

158 *Compensation for persons affected by crime.*

159 *Compensation for miscarriages of justice.*

Section 72 – Civil registrations

160 *Registration of births, adoptions, marriages, civil partnerships and deaths.*

161 *Registration of places of worship.*

Section 73 – Registration of interests in land

162 *Registration of interests in land.*

Section 74 – Grant and registration of probate

163 *Grant and registration of probate.*

Section 75 – Charities

164 *Registration and regulation of charities.*

Exception

The charitable status of schools and institutions in the further or higher education sectors.

Section 76 – Anti-social behaviour

165 *Anti-social behaviour injunctions under section 1 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014.*

32. Byddai'r Bil Amgen yn lleihau nifer y materion a gadwyd yn ôl. Fel y nodwyd rywle arall yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru, mae gwahaniaeth mawr rhwng setliad datganoli Cymru a rhai'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, yn cynnwys 27 o dudalennau o faterion a gadwyd yn ôl (yn Atodlen 7A) a saith tudalen o gyfyngiadau (yn Atodlen 7B). Ar y llaw arall, roedd Deddf yr Alban 1998 fel y'i deddfwyd (y cymharydd mwyaf amlwg) yn cynnwys 17 o dudalennau o faterion a gadwyd yn ôl a phedair tudalen o gyfyngiadau.

33. Mae'r Bil amgen yn lleihau nifer y tudalennau o faterion a gadwyd yn ôl ac, er nad ymarfer gwyddonol mo hwn, mae'n werth nodi bod y lleihad ond yn arwyddocaol ar ôl i'r materion gohiriedig gael eu datganoli – pan gaiff nifer y tudalennau eu lleihau o 25 i 20. Dengys hyn fod cyfiawnder a phlisma,

yn ogystal â bod yn ganolog i nodau a chyfrifoldebau unrhyw lywodraeth neu ddeddfwrfa, yw'r prif wahaniaeth rhwng setliadau'r Alban a Chymru.

Llacio cyfyngiadau diangen

34. Fodd bynnag, mae'r ffin amrwd sy'n gysylltiedig â'r setliad datganoli i'w priodoli nid yn unig i'r nifer fawr o **faterion a gadwyd yn ôl** ond hefyd i'r **cyfyngiadau** a osodir ar ddeddfwrfa Cymru sy'n aml yn golygu bod angen cael cydsyniad Llywodraeth y DU. Mae Deddf Cymru 2017 wedi newid natur y cyfyngiadau hyn fel nad oes angen cysyniad Llywodraeth y DU mwyach mewn rhai achosion ond ychwanegodd amrywiaeth eang o gyfyngiadau newydd. Ar y cyfan, mae hyn wedi ychwanegu at y ffin amrwd. Cynigiodd y Bil amgen ddull gweithredu gwahanol na fyddai'n cyfyngu ar ddeddfwrfa Cymru yn amhriodol.

35. Rhywbeth arall sy'n cael effaith andwyol yw cyfyngiad a ddilëwyd o Ddeddf yr Alban (ac a gyfiawnhawyd ar y sail honno), ond sydd wedi'i osod yng nghyd-destun gwahanol iawn setliad datganoli Cymru. Mae cyfyngiad ar addasu'r cysyniad (dryslud, a dweud y gwir) o'r "gyfraith ar faterion a gadwyd yn ôl" yn cael llawer mwy o effaith yng Nghymru am fod llawer mwy o faterion a gadwyd yn ôl, gan gynnwys, yn hollbwysig, y system gyfiawnder. Mae hyn yn bwysig am fod plismona a'r system gyfiawnder yn faterion a gadwyd yn ôl ac, felly, mae unrhyw ddarpariaeth a wneir at ddibenion gorfodi cyfraith (ddatganoledig) yn gorfod pasio prawf rheidrwydd. O ganlyniad, gellir herio deddfwriaeth Gymreig ar y sail bod darpariaethau sydd eu hangen i ofodi'r gyfraith yn cael mwy o effaith ar "... on reserved matters than is necessary to give effect to the purpose of [the] provision". Ni ddylai'r prawf hwn fod yn gymwys ac ni chafodd ei gynnwys yn y Bil amgen.

36. Mae cyfyngiadau sy'n golygu bod angen cael cydsyniad Gweinidogion y DU pan fydd Deddfau Cymreig yn effeithio ar "awdurdodau a gadwyd yn ôl", sydd wedi'u diffinio'n eang, hefyd yn achosi llawer o broblemau. Unwaith eto, mae'r nifer fawr o bynciau a gadwyd yn ôl, yn ogystal â'r diffiniad a fabwysiadwyd, yn golygu bod effaith y gofyniad hwn i gael cydsyniad yn eang ei chwmpas. Er nad yw'r cysyniad hwn i'w gael mewn setliadau datganoli eraill, derbyniodd y Bil amgen yr egwyddor o gyfyngu ar y graddau y gall deddfwriaeth effeithio ar awdurdodau a gadwyd yn ôl heb gael cydsyniad Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'r awdurdodau a gadwyd yn ôl eu hunain yn llawer mwy cyfyngedig.

Y potensial ar gyfer datganoli plismona a'r system gyfiawnder yn raddol

37. Roedd y Bil amgen yn rhagweld y byddai pob un o'r materion gohiriedig a restrwyd yn cael eu datganoli ar "ddyddiad trosglwyddo" penodedig. Fodd bynnag, gellid bod wedi defnyddio'r fframwaith yn y fath fodd er mwyn datganoli rhai elfennau o'r system gyfiawnder cyn elfennau eraill. Y tu allan i fframwaith y Bil byddai hefyd wedi bod yn bosibl i elfennau penodol o faterion a gadwyd yn ôl gael eu datganoli'n rhannol fel mesur

dros dro (er enghraifft pwerau neu gyfrifoldeb gweithredol – mae plismona a'r gwasanaeth prawf yn enghreifftiau. Fodd bynnag, gallai gwneud hynny greu rhagor o "ffiniau amrwd" a mwy o densiwn a diffyg cydlyniant rhwng yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn nad yw wedi'i ddatblygu. Felly, yn gyntaf oll, byddai angen sicrhau bod penderfyniadau i ddatganoli rhai elfennau yn raddol yn ymarferol yn y byrdymor ac, yn hollbwysig, yn rhan o drefn gyfansoddiadol tymor hwy.

Datblygu adnoddau ac arbenigedd y gwasanaeth sifil –a datblygu polisi cyfiawnder

38. Fel y nodir mewn papurau tystiolaeth eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, mae "ffin amrwd" y setliad datganoli yn atal gwasanaethau cyhoeddus rhag cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol. Yn hytrach na sicrhau taclusrwydd cyfansoddiadol, y nod wrth ddileu'r ffin amrwd honno yw sicrhau y gellir cydgysylltu gwasanaethau cyhoeddus yn well. Ar hyn o bryd, gwahanol weinyddiaethau sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus cydgysylltiedig, a'r system gyfiawnder ei hun. Byddai newid i drefniadau mwy cydlynol ac integredig yn hwyluso dull mwy cydgysylltiedig o weithredu a ddylai ohono'i hun arwain at well defnydd o adnoddau a gwell canlyniadau.

39. Mae'n bosibl y bydd y dull gweithredu a nodir yn y Bil amgen yn fodd i fynd i'r afael â rhai o'r materion y mae'r Comisiwn yn ymgodymu â nhw mewn perthynas â gallu Llywodraeth Cymru i gymryd cyfrifoldebau newydd sylweddol dros gyfnod cymharol fyr o amser. Wrth gwrs, mae gan Lywodraeth Cymru gryn brofiad o gymryd swyddogaethau newydd ac ymaddasu i drefniadau cyfansoddiadol newydd. Ers 1999 mae newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i'r system lywodraethu a'r pwerau datganoledig ar sawl achlysur. Yr arwydd mwyaf amlwg o hyn yw'r ffaith bod Senedd y DU eisoes wedi pasio pedair Deddf ar ddatganoli yng Nghymru. Fel rhan o'r newidiadau hyn mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu arbenigedd ym maes datblygu cyfreithiau newydd, wedi sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru ac wedi cymryd cyfrifoldeb am faterion megis trafndiaeth a gwasanaethau tân.

40. Y ffigur mwyaf diweddar ar gyfer gwariant cyfredol ar blismona a chyfiawnder yng Nghymru yw £717 miliwn y flwyddyn. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i wariant ar y swyddogaethau hyn yn y flwyddyn fwyaf diweddar fod yn fan cychwyn i drafodaeth ynghylch y sefyllfa ariannu sylfaenol, er ei bod yn amlwg y bydd cyfle i drafod ai'r lefel honno o wariant yw'r llinell sylfaen briodol ar gyfer swyddogaeth ddatganoledig mewn gwirionedd. Ar ôl i linell sylfaen briodol gael ei phennu, byddem yn disgwyl i Fformiwlâ Barnett gael ei chymhwyso wedyn at newidiadau i wariant ar swyddogaethau tebyg yn Lloegr er mwyn penderfynu ar newidiadau canlyniadol i grant bloc Cymru wedi hynny.

41. Amcangyfrifwn y bydd capasiti polisi ychwanegol yn costio tua £14 miliwn y flwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ystyried ei fod yn amcangyfrif rhesymol o nifer y swyddogion sydd eu hangen i ymgymryd â rôl gyfatebol yn yr Alban a'n profiad o swyddogaethau eraill yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Mae ein hamcangyfrif ar gyfer cyfarwyddiaeth sy'n cynnwys 200 o bobl. Wrth gwrs, bydd yr union gapasiti sydd ei angen yn dibynnu ar flaenoriaethau polisi a blaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraethau yng Nghymru yn y dyfodol ac mae'n rhesymol tybio y bydd yr adnoddau sydd eu hangen yn amrywio ar adegau gwahanol o dan lywodraethau gwahanol. Unwaith eto, yn amodol ar gytundeb, nid atgynhyrchu pob un o swyddogaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fyddai'r nod ond, yn hytrach, defnyddio ("buy into") adnoddau neu arbenigedd presennol y DU neu Gymru a Lloegr lle y bo hynny'n ymarferol ac yn effeithiol. Mae rhai cyrff sy'n ymwneud â chyfiawnder eisoes yn gweithredu ar sail drawsawdurdodaethol a byddai synergeddau mwy amlwg rhwng awdurdodaethau Cymru a Lloegr. Gallai hefyd fod yn bosibl defnyddio mathau eraill o arbenigedd allanol ar sail **ad hoc**.

42. Mae gan Lywodraeth Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ymreolaeth lawn i benderfynu sut y caiff y gyllideb sydd ar gael i Gymru ei neilltuo ar gyfer swyddogaethau datganoledig. Byddai'r cyllid a ddyrennir i blismona a chyfiawnder yn dibynnu ar y lefel gyffredinol o adnoddau sydd ar gael a'r flaenoriaeth a roddir i'r blaenoriaethau hyn o'u cymharu â blaenoriaethau eraill. Wrth gwrs, mater i Lywodraeth Cymru ar yr adeg honno fyddai hwn a byddai'n amhriodol rhoi unrhyw fath o ymrwymiad ynglŷn â hyn. Y peth pwysig yw bod penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud yng Nghymru, lle mae'r Llywodraeth a'r Cynulliad yn sefydliadau aeddfed sydd â hanes o ddyrannu adnoddau a chraffu'n llwyddiannus.

43. Byddai mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd yn y system gyfiawnder bresennol a sicrhau cydweithredu effeithiol â gwasanaethau cysylltiedig sydd eisoes wedi'u datganoli yn hanfodol i drosglwyddo cyfrifoldebau'n llwyddiannus. Wrth gwrs, mae cyfiawnder a phlismona yn llawer mwy na "gwasanaethau" ond, yn weithredol, mae synergeddau clir rhwng yr hyn a wneir gan yr heddlu a'r system gyfiawnder ar y naill law ac (fel enghreifftiau amlwg) y gwasanaeth iechyd a'r system addysg ar y llaw arall.

44. Felly, câi amser ei dreulio yn ystyried sut y gellid dileu'r aneffeithlonrwydd a nodwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei hadroddiad "Efficiency in the Justice System" a gyhoeddwyd yn 2016. Nododd yr adroddiad hwnnw nad yw'r system cyfiawnder troseddol, ar y cyfan, yn sicrhau gwerth am arian ac na fydd y diwygiadau sy'n cael eu harwain gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chyrrff eraill yn ymdrin ag holl achosion o aneffeithlonrwydd.

45. Yn ddiddorol ddigon, mae llawer o achosion aneffeithlonrwydd a nodwyd yn deillio o gydweithredu aneffeithiol rhwng gwahanol rannau o'r system, sy'n dangos diffyg arweinyddiaeth a diffyg gweledigaeth a rennir, ac "[a] lack of incentives

to encourage organisations to take the best course of action for the whole system” (paragraff 2.12, tudalen 27). Mae'r adroddiad hefyd yn dod i'r casgliad bod angen i sefydliadau gydweithio mewn ffordd integredig a bod angen meini prawf arnynt i asesu trefniadau cydweithredu (paragraff 2.13, tudalen 27). Aiff yr adroddiad ymlaen i nodi “Different organisational structures and approaches among the main organisations in the system mean it is difficult for them to work together effectively at a local level. The police and victims services are seeking to devolve authority to local level. Other parts of the system, such as the CPS, have a more centralised structure, with national performance measures. In addition, regional boundaries overlap in some areas. This means there is no common level of the system (local, regional or national) where parties have autonomy to agree how to tackle inefficiencies”. Dylai fod yn haws mynd i'r afael â phob un o'r materion hyn o fewn system fwy integredig a llai o faint.

46. Byddai hefyd yn hollbwysig sicrhau y câi trefniadau cydweithredu a phrosesau llunio polisïau cydgysylltiedig eu rhoi ar waith o **fewn** Llywodraeth Cymru. Byddai angen i swyddogion sy'n ymdrin yn bennaf â materion sy'n ymwneud â phlisma a chyfiawnder weithio'n agos gyda chyfarwyddiaethau eraill o fewn Llywodraeth Cymru, y mae eu swyddogaethau yn gysylltiedig â'i gilydd, a chael eu cefnogi gan y cyfarwyddiaethau hynny. Mae'r gallu i ddod â swyddogion a Gweinidogion at ei gilydd yn hawdd ar sail trawsbortffolio yn fantais y gall gweinyddiaeth lai o faint megis Llywodraeth Cymru ei defnyddio.

Asesu pa seilwaith gweithredu y byddai ei angen yn y dyfodol

47. Fel rhan o'r broses o ddatblygu ei pholisi cyfiawnder, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn ystyried gwahanol gyrff y gellir eu disgrifio fel cyrff sy'n rhan o seilwaith gweithredol y system gyfiawnder. Ceir tabl o gyrff o'r fath yn **Atodiad 2**.

48. Byddai angen gwneud rhagor o waith dadansoddi er mwyn asesu i ba raddau y byddai datganoli'r system gyfiawnder yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff newydd ar wahân gael eu sefydlu i gyflawni'r swyddogaethau hyn yng Nghymru, ond byddai'r cyfnod pontio a ragwelir gan y Bil amgen yn rhoi amser i hyn gael ei wneud. Wrth ystyried y cwestiwn hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai angen rhoi sylw i gwestiynau manwl am bensaernïaeth sefydliadol system gyfiawnder i Gymru. Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud y dylid datganoli cyfiawnder, byddai angen digon o amser fel y gellid ystyried y materion hyn yn briodol cyn i bwerau gael eu trosglwyddo'n ffurfiol. Bwriedir i'r wybodaeth a ddarperir isod nodi, ar lefel strategol, y prif ffactorau a fyddai'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch trefn y system gyfiawnder yn y dyfodol. Gallai gwaith mwy manwl ddilyn wedyn pan wneir penderfyniad i ddatganoli'r swyddogaethau hyn. Yn y cyfamser, gobeithiwn y bydd y Comisiwn ei hun yn ystyried y materion hyn ac edrychwn ymlaen at weld ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn hyn o beth.

49. Mae sawl ffactor a fyddai'n dylanwadu ar drafodaethau ynghylch sut beth fyddai system gyfiawnder gwbl ddatganoledig, sef:

- yr union bwerau sydd wedi'u datganoli a chylch gwaith cyrff sy'n bodoli eisoes;
- natur y swyddogaethau (neu'r 'math' o swyddogaethau) sy'n cael eu harfer a'r graddau y mae'r ffyrdd y mae gwasanaethau a ddarperir yn debygol o ymwahanu rhwng Cymru a Lloegr neu tu hwnt;
- y graddau y gall darpariaeth yng Nghymru a Lloegr barhau i fod yn gydgysylltiedig neu'n rhyngddibynnol a pha mor ddymunol ac ymarferol yw datgysylltu darpariaeth yng Nghymru;
- dichonoldeb sefydlu trefniadau ar wahân ar gyfer yr hyn a fyddai'n system gyfiawnder lawer llai i Gymru o gymharu â defnyddio cyrff sy'n bodoli i ddarparu gwasanaethau lle y bo'n briodol.

50. Mae'r dystiolaeth isod yn ceisio disgrifio sut y gallai'r ffactorau hyn ddylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r ffordd y gallai swyddogaethau cyrff penodol gael eu cyflawni, pe bai cyfiawnder yn cael ei ddatganoli. Fodd bynnag, yn fras, ein barn bresennol yw y gallai llawer o'r seilwaith presennol gael ei rannu, i ddechrau o leiaf, gyda'r broses o sefydlu cyrff ar wahân i Gymru yn mynd rhagddi'n raddol, wrth i ddeddfwriaeth a pholisi ymwahanu dros amser.

Yr union bwerau sydd wedi'u datganoli a chylch gwaith cyrff sy'n bodoli eisoes

51. Wrth ddatblygu'r Bil amgen, gwnaethom gydnabod bod swyddogaethau a chyrff penodol y dylai'r cyfrifoldeb amdanynt barhau i gael ei gadw'n ôl i Lywodraeth y DU. Nid oeddem yn rhagweld, er enghraifft, y câi'r cyfrifoldeb am faterion sy'n rhan o gylch gwaith yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ei datganoli. Ac er ein bod yn credu y dylai plismona fod yn fater datganoledig, ni chynhwyswyd y swyddogaethau a gyflawnir gan heddluoedd arbennig megis Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn neu Awdurdod Heddlu a'r Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil. Felly, byddai'r cyrff hyn yn parhau i weithredu fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.

52. Yn yr un modd, nid oeddem yn rhagweld y câi cymhwysedd deddfwriaethol ei ymestyn i gynnwys rheoleiddio pwerau cyrff cyhoeddus i wneud gwaith gwyliadwriaeth ac ymchwilio na'r rheolau ynglŷn ag ymyrryd â chyfathrebu. Felly, byddai materion a gedwir yn ôl mewn perthynas ag ymyrryd â chyfathrebu, data cyfathrebu a gwyliadwriaeth yn parhau i gael eu cadw'n ôl, a byddai cyrff megis Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn parhau i weithredu yn union yr un ffordd.

53. Ar bwynt cysylltiedig, mae rhai cyrff y mae eu cylch gwaith yn croesi'r ffiniau datganoli presennol. Er enghraifft, mae'r Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol yn ymdrin â hawliadau am iawndal gan bobl sydd wedi cael eu hanafu'n gorfforol neu'n feddyliol am eu bod wedi dioddef trosedd dreisgar yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban; ond nid yw iawndal am anafiadau troseddol yn fater a gedwir yn ôl yn yr Alban. Yn yr un modd, mae cylch gwaith y Comisiwn Adolygu Achosion

Troseddol yn cwmpasu Gogledd Iwerddon yn ogystal â Chymru a Lloegr, ond nid yw'n cwmpasu'r Alban.

Natur y swyddogaethau sy'n cael eu harfer

54. Mae'r system gyfiawnder annatganoledig yn cynnwys nifer fawr o gyrff sy'n gyfrifol am amrywiaeth o swyddogaethau, gan gynnwys:

- cyrff sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yn weithredol, a'r rhai sy'n pennu ac yn monitro'r rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud hyn;
- arolygiaethau, a chyrff eraill sy'n monitro ac yn goruchwyllo gweithrediad y system gyfiawnder;
- cyrff sy'n gyfrifol am gynnal safonau proffesiynol ac ymchwilio i gwynion;
- cyrff rheoleiddio a chyrff cynrychioliadol proffesiynol;
- cyrff sy'n gyfrifol am recriwtio a/neu benderfynu ar gyflogau ac amodau gwasanaeth;
- cyrff sy'n darparu gwasanaethau eirioli, cynrychiolaeth neu gymorth er mwyn hyrwyddo neu ddiogelu hawliau dinasyddion yn y system gyfiawnder, gan gynnwys dioddefwyr troseddau.

55. Ym mhob achos, byddai'r math o swyddogaeth y mae corff yn gyfrifol amdani yn ffactor pwysig wrth benderfynu p'un a ddylid creu corff ar wahân i Gymru ai peidio. Er enghraifft, mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn gorff proffesiynol annibynnol sy'n cynrychioli, yn cefnogi ac yn hyrwyddo cyfreithwyr. Mae'n bendant yn bosibl i fuddiannau cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr gael eu cynrychioli gan un corff, yn debyg iawn i'r ffordd y mae Cymdeithas Feddygol Prydain yn parhau i gynrychioli meddygon yng Nghymru. Ac mae'n wir, wrth gwrs, mai mater i'r proffesiynau eu hunain fyddai penderfynu ar y ffordd orau y gall eu buddiannau gael eu cynrychioli yng Nghymru, pe bai cyfiawnder yn cael ei ddatganoli. Mae prosesau rheoleiddiol yn fwy cymhleth ond mae'n werth nodi bod swyddogaethau'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn debyg mewn sawl ffordd i'r rhai a gyflawnir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol, sy'n awgrymu y gallai'r trefniant hwn barhau hefyd, i ddechrau o leiaf.

56. O ran cyrff presennol sy'n gyfrifol am roi cyngor ar gyflog a materion cysylltiedig, megis Corff Adolygu Cyflogau'r Gwasanaeth Carchardai a Chorff Adolygu Cydnabyddiaeth Ariannol yr Heddlu, gellid rhoi dadleuon o blaid cadw'r trefniadau presennol ac o blaid sefydlu trefniadau newydd ar wahân i Gymru. Gan y byddai costau cyflogau system gyfiawnder ddatganoledig yn cael eu talu o gyllideb Llywodraeth Cymru, gellid rhoi dadl dros sefydlu trefniadau ar wahân, ond nid oes unrhyw reswm cymhellol pam mae'n rhaid sefydlu trefniadau ar wahân: dim ond yn ddiweddar y cafodd y cyfrifoldeb am bennu cyflogau ac amodau athrawon ei ddatganoli er bod addysg (a llywodraeth leol) wedi bod yn faterion datganoledig ers 1998. Mae hefyd yn werth nodi bod Corff Adolygu Cydnabyddiaeth Ariannol yr Heddlu yn gwneud argymhellion ynglŷn â chyflogau swyddogion yr heddlu ar gyfer Gogledd Iwerddon, ond nid yr Alban. Byddai penderfyniadau ynghylch sut y câi cyflogau ac amodau eu rheoli yn ddewis polisi i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ond, i ddechrau o leiaf, byddai parhau i rannu dull gweithredu cyffredin â Lloegr yn fanteisiol, ac efallai na fydd sefydlu trefniadau ar wahân mewn perthynas â chyflogau ac amodau yn flaenoriaeth uchel.

Y tebygolrwydd o ymwahanu a rhyngddibyniaethau darpariaeth yng Nghymru a Lloegr

57. Byddai asesiad gwrthrychol o natur a swyddogaethau'r cyrff sy'n bodoli ar hyn o bryd ledled Cymru a Lloegr yn helpu i nodi ble y gallai fod yn fwy buddiol parhau â'r trefniadau presennol. Fodd bynnag, byddai materion ymarferoldeb a blaenoriaeth polisi hefyd yn chwarae rhan bwysig. Rydym yn golygu wrth hynny, ar y naill law, ei bod yn bosibl y bydd gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol uchelgeisiau a blaenoriaethau polisi a fydd yn pennu ble y caiff cyrff Cymreig newydd eu sefydlu (neu'n dylanwadu ar y penderfyniad hwnnw o leiaf). Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd angen cydbwysu hyn yn erbyn asesiad o ba mor hawdd neu anodd, yn ymarferol, fyddai datgysylltu trefniadau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru oddi wrth system bresennol Cymru a Lloegr.

58. Fel enghraifft o ble y gallai blaenoriaethau polisi fod yn ddarbwyllol, mae'r anawsterau cynyddol sy'n wynebu dinasyddion Cymru o ran cael mynediad i gyfiawnder yn destun pryder mawr i Weinidogion Cymru. Mae'r anawsterau hyn yn cael eu hachosi'n rhannol gan newidiadau diwedddar i gymorth cyfreithiol ac mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol sy'n ystyried bod diwygio'r system cymorth cyfreithiol yn flaenoriaeth frys am sefydlu corff Cymreig i weinyddu system cymorth cyfreithiol newydd i Gymru. Ar y llaw arall, efallai y byddai'n bosibl i un corff weinyddu systemau ar wahân i Gymru a Lloegr, drwy ddefnyddio'r profiad a'r seilwaith sydd eisoes yn bodoli i wneud hynny. Byddai manteision ac anfanteision i'r ddau ddull gweithredu, y byddai angen eu hystyried yn ofalus a chytuno arnynt â Llywodraeth y DU.

59. Er mwyn datblygu'r pwynt hwn, mae carchardai yn enghraifft o ble y gallai fod tensiynau rhwng blaenoriaethau polisi a'r pethau ymarferol sy'n gysylltiedig â phrosesau gweinyddu cyfiawnder ledled Cymru a Lloegr sy'n gydgysylltiedig ac yn rhyngddibynnol. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn Asiantaeth weithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gweithredu dedfrydau a roddir gan y llysoedd yn y ddalfa a'r gymuned ac sy'n ceisio adsefydlu troseddwyd. Yn ei dro, Gwasanaeth Carchardai EM yw asiantaeth weithredol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM sy'n cadw'r rhai a ddedfrydwyd i dreulio cyfnod yn y carchar yn y ddalfa; ac mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM i oruchwylio troseddwyd risg uchel a ryddheir i'r gymuned. Ar hyn o bryd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol sy'n gyfrifol am oruchwylio troseddwyd risg isel a chanolig, er i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder lansio ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2018 a oedd yn ceisio barn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y cwmnïau hyn yng Nghymru, gyda'r posibilrwydd o derfynu eu contractau yn gynnar.

60. Mae ceisio lleihau aildroseddu drwy wella'r ffordd y caiff troseddwy'r eu cefnogi a'u hadsefydlu tra byddant yn y carchar neu ar brawf yn debygol o fod yn flaenoriaeth. Ar y sail honno, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am sefydlu cyrff penodol i ddarparu gwasanaethau carchardai a phrawf yng Nghymru. Yn achos gwasanaethau prawf, gallai hyn (yn drefniadol) fod yn broses syml. Mae gwasanaethau prawf yn cefnogi ac yn goruchwyllo troseddwy'r yn eu cymuned sy'n golygu, drwy ddiffiniad, y bydd gwasanaethau prawf yng Nghymru yn ymdrin yn bennaf (os nad bron yn gyfan gwbl) â dinasyddion mewn cymunedau yng Nghymru. Ar y cyfan, mae gwasanaethau prawf wedi cael eu trefnu ar sail ffiniau lleol neu ranbarthol – am amser maith roedd eu cwrpas rhanbarthol yn cyd-fynd â chwmpas rhanbarthol yr heddluoedd. Ac mae gan wasanaethau prawf gydberthnasau gwaith agos iawn â gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n chwarae rôl bwysig o ran adsefydlu troseddwy'r.

61. Ond yn achos carchardai, byddai'n sefyllfa yn fwy cymhleth, yn ôl pob tebyg. Erbyn hyn, mae mwy o leoedd mewn carchardai yn ystâd carchardai Cymru nag sydd eu hangen ar gyfer nifer y troseddwy'r o Gymru sydd wedi cael dedfryd o garchar ar unrhyw adeg benodol. Ond nid oes unrhyw gyfleusterau i droseddwy'r benywaidd nac unrhyw ddarpariaeth Categori A benodol (er bod CEM Berwyn wedi derbyn nifer fach o garcharorion Categori A). Byddai'n rhaid i wasanaeth carchardai i Gymru barhau i ddibynnu ar gyfleusterau yn Lloegr ar gyfer rhai mathau o garcharorion, tra byddai ganddo ormod o leoedd ar gyfer mathau eraill. Felly, yn ymarferol, byddai sefydlu Gwasanaeth Carchardai i Gymru yn dasg fwy cymhleth na sefydlu Gwasanaeth Prawf i Gymru.

Dichonoldeb ac ymarferoldeb sefydlu cyrff ar wahân i Gymru

62. Felly, byddai natur y swyddogaeth sy'n cael ei chyflawni a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y seilwaith cyfiawnder. Ond rydym

yn cydnabod y bydd materion ymarferoldeb a dichonoldeb hefyd yn chwarae rhan.

Rydym yn golygu wrth hyn:

- na fydd efallai'n bosibl nac yn ddymunol, yn ymarferol, sefydlu, ar y diwrnod cyntaf, bob un o'r cyrff cyfiawnder datganoledig ar wahân y gallwn ddod i'r casgliad eu bod yn angenrheidiol ar gyfer y system gyfiawnder rydym am ei chreu yng Nghymru;
- am y bydd Cymru yn awdurdodaeth lawer llai na Lloegr – ac am fod rhai o'r cyrff presennol yng Nghymru a Lloegr eu hunain yn gymharol fach – ei bod yn bosibl na fydd yn synhwyrol sefydlu trefniadau ar wahân yma.

63. Fel man cychwyn mae'n debygol y byddem, felly, yn ceisio llunio cytundebau lle y byddai llawer o'r cyrff – i ddechrau o leiaf – yn parhau i weithredu ledled Cymru a Lloegr. Yn ein barn ni, ni ddylai hyn beri unrhyw anawsterau i'r cyrff dan sylw. Er y byddai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn pennu ei chyfeiriad polisi ei hun ar gyfer cyfiawnder ar ôl iddo gael ei ddatganoli, byddai graddau'r ymwahanu yn gyfyngedig iawn, am y bydd yn cymryd amser i ddiwygiadau ddatblygu a chael eu rhoi ar waith (ac mewn llawer o achosion efallai y bydd angen i'r Cynulliad basio Deddfau er mwyn gwneud hynny). Wedyn câi cyrff newydd eu sefydlu dros amser, a fyddai'n seiliedig ar flaenoriaethau polisi'r llywodraeth ar y pryd ac yn adlewyrchu lle mae ymwahanu cynyddol rhwng polisïau yn dechrau ei gwneud hi'n fwy anodd parhau i ddibynnu ar gyrff cyffredin i Gymru a Lloegr.

Datgysylltu'r llyfr statud drwy godeiddio'r gyfraith berthnasol

64. Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflymu'r broses o ddatblygu cyfraith statud Cymru. Bydd prosiect hirdymor o sicrhau bod deddfwriaeth yn fwy hygyrch drwy gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith mewn meysydd datganoledig yn parhau a byddai'n ategu'r broses o greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru.

Cam 3: datganoli cyfiawnder a phlisma yn llawn mewn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru

65. Ar ôl cyfnod pontio o hyd at 10 mlynedd, roedd y Bil amgen yn rhagweld y byddai plisma a'r system gyfiawnder yn cael eu datganoli'n llawn. Byddai corff ffurfiol o gyfreithiau i Gymru yn bodoli eisoes, a fyddai'n rhan o awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru.

66. Ar yr adeg honno ni fyddai unrhyw gyfyngiadau ar Lywodraeth Cymru o ran ei hawydd i ddatblygu ei pholisïau cyfiawnder ei hun, nac ychwaith ei hawydd i integreiddio gwasanaethau sy'n bodoli eisoes â phlisma a'r system gyfiawnder lle y bo'n briodol.

67. Ni fyddai hyn yn golygu y byddai newid pellach yn digwydd o reidrwydd nac ychwaith y byddai newid yn digwydd yn gyflym. Roedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai llawer o'r prosesau a gynhelid yn ystod y cyfnod pontio yn parhau neu y byddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddai'r system newydd yn parhau i ddatblygu'n raddol a byddai angen asesu dymunoldeb newid y gyfraith breifat (ymhlith pethau eraill) yn erbyn dymunoldeb parhad.

68. Yn hollbwysig, byddai cam 3 yn dod â'r ddeuoliaeth rhwng deddfu ar y naill law a gweinyddu cyfiawnder ar y llaw arall ac yn dileu achosion tensiynau rheolaidd (a'r potensial ar gyfer gwrthdaro) rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Casgliad

69. Yn anffodus, er gwaethaf yr ystyriaeth ofalus a roddwyd i sut y gellid ail-lunio setliad datganoli Cymru a datblygu'r cynigion manwl a nodir yn y Bil amgen, roedd Llywodraeth y DU yn anfodlon ystyried unrhyw wyriad sylweddol oddi wrth ei Bil. O ganlyniad, ni chynhaliwyd unrhyw drafodaeth ystyrlon ynghylch y dull gweithredu gwahanol a nodir yn y Bil amgen. Ar ôl hynny sefydlodd Llywodraeth Cymru y Comisiwn ar Gyfiawnder y mae ei gylch gwaith yn cynnwys y materion yr ymdrinnir â nhw gan y Bil amgen er nad yw'n gyfyngedig i'r materion hynny.

Atodiad A: Systemau cyfreithiol y DU: heddiw




Awdurdodaethau cyfreithiol (a chyrff o gyfraith)



Tarddiadau'r gyfraith

Systemau cyfreithiol y DU: y dyfodol



Awdurdodaethau cyfreithiol (a chyrff o gyfraith)



Tarddiadau'r gyfraith

Atodiad B: Cyrff yn ôl categori

Y Farnwriaeth	Y proffesiwn cyfreithiol	Llysoedd	Cyfiawnder Troseddol	Plismona	Hawliau Dioddefwyr	Diogelu	Rheoleiddiol, Arall
Y Pwyllgor Cynghori ar Ynadon Heddwch.	Cyngor y Bar.	CAFCASS.	Gwasanaeth Eryl y Goron.	Y Comisiynydd Biometreg.	Yr Awdurdod Iawndal	Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur.
Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.	Bwrdd Safonau'r Bar.	Cyngor Cyfiawnder Sifil.	Arolygiaeth Carchardai EM.	Heddlu Trafnidiaeth Prydain.	Anafiadau Troseddol.	Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.	Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio.
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol.	Cymdeithas y Cyfreithwyr.	Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil.	Arolygiaeth Prawf EM.	Yr Awdurdod Heddlu a'r Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil.	Comisiynydd Dioddefwyr.	Y Cyfreithiwr Swyddogol a'r Ymddiriedolwr Cyhoeddus.	Comisiwn y Gyfraith.
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol.	Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr.	Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol.	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM.	Y Coleg Plismona.			Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol.		Y Cyngor Cyfiawnder Teuluol.	Y Bwrdd Monitro Annibynnol.	Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM.			Yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol.		Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu.	Y Cyngor Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa.	Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.			Yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol.		Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.	Y Bwrdd Parôl.	Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn.			Yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol.		Y Pwyllgor Rheolau Ansolfedd.	Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth.	Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.			Yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol.		Y Cyngor Dedfrydu.	Corff Adolygu Cyflogau'r Gwasanaeth Carchardai.	Bwrdd Cyngori'r Heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr.			Yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol.			Gwasanaeth Cystodaeth Ieuenctid (YCS).	Corff Adolygu Cydnabyddiaeth Ariannol yr Heddlu.			Yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol.			Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.	Y Bwrdd Cyngori Technegol.			Yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol.			Gwasanaeth Cystodaeth Ieuenctid.				Yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.

Corff	Swyddogaeth
Y Pwyllgor Cyngori ar Ynadon Heddwch	Y Farnwriaeth (recriwtio ac ymchwilio i achosion o gamymddwyn) Rôl y pwyllgor hwn, a sefydlwyd gan yr Arglwydd Ganghellor, yw recriwtio ynadon yn eu hardaloedd ac ymdrin â chyhuddiadau o gamymddwyn gan ynadon.
Cyngor y Bar	Y proffesiwn cyfreithiol (corff cynrychioliadol proffesiynol) Mae'n cynrychioli bargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr, ac yn hyrwyddo'r canlynol: • Gwasanaethau eirioli a chynghori arbenigol y Bar sydd o ansawdd uchel; • Mynediad teg i gyfiawnder i bawb; • Y safonau uchaf o ran moeseg, cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob rhan o'r proffesiwn; • Datblygu cyfleoedd busnes i fargyfreithwyr yn y wlad hon a dramor. Mae hefyd yn gweithredu fel Rheoleiddiwr Cymeradwy'r Bar ac yn cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio drwy Fwrdd Safonau Annibynnol y Bar.
Bwrdd Safonau'r Bar	Y proffesiwn cyfreithiol (rheoleiddiol) Mae'n rheoleiddio bargyfreithwyr a busnesau gwasanaethau cyfreithiol arbenigol yng Nghymru a Lloegr: • Mae'n rheoleiddio bargyfreithwyr a busnesau gwasanaethau cyfreithiol arbenigol yng Nghymru a Lloegr; • Mae'n pennu safonau ymddygiad i fargyfreithwyr; • Mae'n awdurdodi sefydliadau sy'n canolbwyntio ar eiriolaeth, ymglyfreitha a chynghori cyfreithiol arbenigol; • Mae'n monitro gwasanaethau a ddarperir gan fargyfreithwyr a sefydliadau awdurdodedig; Mae'n ymdrin â chwynion; mae'n cymryd camau disgyblu neu gamau eraill lle y bo'n briodol.

Corff	Swyddogaeth
Y Comisiynydd Biometreg	Plismona (rheoleiddiol) Rôl y Comisiynydd, sy'n annibynnol ar y llywodraeth, yw adolygu'r ffordd y mae'r heddlu yn cadw ac yn defnyddio samplau DNA, proffiliau DNA ac olion bysedd.
Heddlu Trafnidiaeth Prydain	Plismona (atal a darganfod troseddau).
CAFCASS	Llysoedd (cynrychioli plant yn y llys) Mae'n cynrychioli plant mewn achosion yn y llys teulu, mae eisoes yn gweithredu ar wahân yng Nghymru.
Y Cyngor Cyfiawnder Sifil	Llysoedd (pennu ac adolygu rheolau a threfniadaeth llysoedd) Corff Cynghori Cyhoeddus a sefydlwyd o dan Ddeddf Trefniadaeth Sifil 1997 sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydgysylltu'r broses o foderneiddio'r system cyfiawnder sifil. Mae'n rhoi cyngor i'r Arglwydd Ganghellor, y Farnwriaeth a'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil ar effeithiolrwydd agweddau ar y system cyfiawnder sifil.
Yr Awdurdod Heddlu a'r Gwnstablïaeth Niwclear Sifil	Plismona (arbenigol) Y Gwnstablïaeth Niwclear Sifil yw'r heddlu arfog sy'n gyfrifol am ddiogelu safleoedd niwclear sifil a deunyddiau niwclear yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol sy'n goruchwylio'r Gwnstablïaeth Niwclear Sifil.
Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil	Llysoedd (pennu rheolau a threfniadaeth llysoedd) Sefydlwyd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil o dan Ddeddf Trefniadaeth Sifil 1997 i lunio rheolau llys (Rheolau Trefniadaeth Sifil) ar gyfer yr Is-adran Sifil o'r Llys Apêl, yr Uchel Lys a'r Llys Sirol. Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil yn gorff cynghori cyhoeddus anadrannol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Corff	Swyddogaeth
Y Coleg Plismona	Plismona (datblygiad a chymorth proffesiynol) Corff proffesiynol gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, sy'n sicrhau bod y rhai sy'n gweithio ym maes plismona yn meithrin y sgiliau ac yn cael y wybodaeth sydd eu hangen arnynt i atal troseddau, diogelu'r cyhoedd a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys datblygu sail dystiolaeth ar gyfer yr hyn sy'n gweithio, yn helpu i ddatblygu aelodau unigol o'r gwasanaeth a datblygu safonau ym maes plismona i unigolion a heddluoedd. Sefydlwyd y Coleg Plismona Cenedlaethol, sy'n annibynnol ar y Swyddfa Gartref, fel cwmni (nid er elw) cyfyngedig drwy warant, ac mae'n ceisio ennill statws Siarter Frenhinol.
Gwasanaeth Erlyn y Goron	Cyfiawnder Troseddol (erlyn troseddau) Mae'n erlyn achosion troseddol y mae'r heddlu a sefydliadau ymchwilio eraill yng Nghymru a Lloegr wedi ymchwilio iddynt.
Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol	Llysoedd Sefydliad annibynnol sy'n ymchwilio i achosion o gamweinyddu cyfiawnder a amheuir gan lysoedd ynadon a Llys y Goron yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
Yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol	Hawliau dioddefwyr Mae'r Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol, sy'n asiantaeth weithredol, yn ymdrin â hawliadau am iawndal gan bobl sydd wedi cael eu hanafu'n gorfforol neu'n feddyliol am eu bod wedi dioddef trosedd dreisgar yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban.
Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Diogelu Mae'n cyflawni swyddogaethau a oedd yn arfer cael eu cyflawni gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol. Mae'n gyfrifol am y canlynol: • prosesau ceisiadau am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a dosbarthu'r gwiriadau hynny ar gyfer Cymru, Lloegr, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw; • gwneud penderfyniadau ynghylch p'un a ddylid gwahardd unigolyn rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau a reoleiddir gyda phlant neu oedolion neu gyda phlant ac oedolion, yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon; • cynnal rhestrau o bobl waharddedig ar gyfer plant ac oedolion.

Corff	Swyddogaeth
Y Cyngor Cyfiawnder Teuluol	Llysoedd (cyngori) Corff cyngori anstatudol, sy'n bennaf cyfrifol am hyrwyddo dull rhyngddisgyblaethol o ymdrin â chyfiawnder teuluol, a monitro pa mor effeithiol y mae'r system cyfiawnder teuluol yn darparu ei gwasanaeth. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar ddiwygiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.
Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu	Llysoedd (pennu rheolau a threfniadaeth llysoedd) Corff cyngori cyhoeddus anadrannol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n gwneud rheolau llys ynglŷn â'r arfer a'r drefniadaeth a ddilynir mewn achosion teuluol yn yr Uchel Lys a'r llys teulu.
Yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur	Rheoleiddiol arall Un o gyrff cyhoeddus anadrannol y Swyddfa Gartref a reolir gan Fwrdd annibynnol ac sy'n gweithredu'r cynllun trwyddedu sy'n rheoleiddio busnesau sy'n darparu gweithwyr ar gyfer y gadwyn cyflenwi cynnyrch ffres a'r diwydiant garddwriaeth.
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM	Llysoedd (rheoli a gweinyddu gweithredol) Asiantaeth weithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n gyfrifol am weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd troseddol, sifil a theuluol yng Nghymru a Lloegr.
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM	Plismona (arolygiaeth) Corff annibynnol sy'n asesu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd heddluoedd yng Nghymru a Lloegr a gwasanaethau tân ac achub yn Lloegr.
Arolygiaeth Carchardai EM	Cyfiawnder Troseddol (arolygiaeth) Arolygiaeth annibynnol sy'n adrodd ar yr amodau ar gyfer unigolion sydd mewn carchardai, sefydliadau i droseddwyr ifanc a chyfleusterau cadw mewnfudwyr, a'r ffordd y cânt eu trin, yng Nghymru a Lloegr.

Corff	Swyddogaeth
Arolygiaeth Prawf EM	Cyfiawnder Troseddol (arolygiaeth) Arolygiaeth annibynnol ar gyfer gwasanaethau troseddau ieuenctid a phrawf yng Nghymru a Lloegr, mae'n adrodd ar effeithiolrwydd y gwaith y mae gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yn ei wneud gydag oedolion a phlant.
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM	Cyfiawnder Troseddol Llysoedd (rheoli a gweinyddu gweithredol) Asiantaeth weithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gweithredu dedfrydau a roddir gan y llysoedd yn y ddalfa a'r gymuned ac sy'n ceisio adsefydlu unigolion drwy addysg a chyflogaeth. Yn ei dro, mae Gwasanaeth Carchardai EM yn un o asiantaethau gweithredol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM sy'n cadw'r rhai a ddedfrydwyd i dreulio cyfnod yn y carchar yn y ddalfa; ac mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM i oruchwyllo troseddwyd risg uchel a ryddheir i'r gymuned.
Y Bwrdd Monitro Annibynnol	Cyfiawnder Troseddol (cymorth/gwasanaeth eirioli i ddinasyddion mewn perthynas â'r system gyfiawnder) Ceir Byrddau Monitro Annibynnol ym mhob carchar a Chanolfan Symud Mewnfudwyr i fonitro'r ffordd y caiff y rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa eu trin er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu trin yn deg, yn gyfiawn ac yn drugarog.
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu	Plismona (safonau proffesiynol, ymchwilio i gwynion) Mae'n goruchwyllo system gwyno'r heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'n ymchwilio i'r materion mwyaf difrifol, gan gynnwys marwolaethau ar ôl i bobl ddod i gysylltiad â'r heddlu, ac yn pennu'r safonau y dylai'r heddlu eu dilyn wrth ymdrin â chwynion.
Y Pwyllgor Rheolau Ansoffedd	Llysoedd (pennu rheolau a threfniadaeth llysoedd) Corff cynghori cyhoeddus anadrannol sy'n ystyried diwygiadau i'r rheolau sy'n deillio o adolygiad o is-deddfwriaeth ynglŷn ag ansolfedd, gan roi ei argymhellion i'r Arglwydd Ganghellor.
Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio	Rheoleiddiol Mae Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio, a sefydlwyd o dan delerau Deddf Pwerau Ymchwilio 2016, yn gorff annibynnol sy'n goruchwyllo'r defnydd a wneir o bwerau ymchwilio gan asiantaethau cudd-wybodaeth, heddluoedd ac awdurdodau cyhoeddus eraill.

Corff	Swyddogaeth
Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol	Y Farnwriaeth (recriwtio) Corff annibynnol sy'n dewis ymgeiswyr am swyddi barnwrol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac ar gyfer rhai tribiwnlysoedd ag awdurdodaeth sy'n cwmpasu'r DU gyfan.
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol	Y Farnwriaeth (ymchwilio i gwynion) Mae'n ymchwilio i'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion ynghylch y broses penodiadau barnwrol a'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion ynghylch disgyblaeth neu ymddygiad barnwrol.
Y Coleg Barnwrol	Y Farnwriaeth (datblygiad a chymorth proffesiynol) Mae'n gyfrifol am hyfforddi barnwyr mewn llysoedd sirol, Llysoedd y Goron a llysoedd uwch yng Nghymru a Lloegr; a barnwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Y Swyddfa Ymchwilio i Ymddygiad Barnwrol	Y Farnwriaeth (ymchwilio i gwynion) Swyddfa annibynnol sy'n helpu'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus i ystyried cwynion ynghylch ymddygiad personol deiliaid swyddi barnwrol.
Y Swyddfa Farnwrol	Y Farnwriaeth (rheoli a gweinyddu gweithredol) Mae'n cefnogi'r farnwriaeth ym mhob un o lysoedd Cymru a Lloegr, a'r tribiwnlysoedd annatganoledig ledled y DU, drwy ddarparu hyfforddiant, cyngor cyfreithiol a chyngor ar bolisi, adnoddau dynol, gohebiaeth a chymorth gweinyddol.
Comisiwn y Gyfraith	Diwygio'r Gyfraith Corff annibynnol statudol a grëwyd gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 i adolygu cyfraith Cymru a Lloegr yn rheolaidd ac argymhell diwygiadau lle y bo eu hangen.
Cymdeithas y Cyfreithwyr	Y proffesiwn cyfreithiol (corff cynrychioliadol proffesiynol) Corff proffesiynol annibynnol sy'n cynrychioli, yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyfreithwyr.

Corff	Swyddogaeth
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol	Llysoedd (rhoi cymorth cyfreithiol er mwyn helpu pobl i gael mynediad i gyfiawnder) Asiantaeth weithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n rhoi cymorth a chyngor cyfreithiol sifil a throseddol i bobl yng Nghymru a Lloegr.
Yr Ombwdsmon Cyfreithiol	Y Proffesiwn Cyfreithiol (safonau proffesiynol/ymchwilio i gwynion) Mae'n ystyried cwynion ynghylch darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chwmnïau rheoli hawliadau.
Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol	Y proffesiwn cyfreithiol (corff rheoleiddio) Corff annibynnol sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r gwaith o reoleiddio cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr, mae'n goruchwyllo'r 10 rheoleiddiwr cymeradwy sy'n rheoleiddio cyfreithwyr eu hunain, mae hefyd yn goruchwyllo'r Swyddfa Cwynion Cyfreithiol, sef Bwrdd yr Ombwdsmon Cyfreithiol.
Y Cyngor Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa	Cyfiawnder Troseddol Mae'r Cyngor Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa yn cynnwys uwch benderfynwyr, arbenigwyr ac ymarferwyr yn y maes ac yn mabwysiadu dull traws-sector estynedig o ymdrin â marwolaethau yn y ddalfa er mwyn darparu ar gyfer dysgu a rhannu gwersi yn well rhwng y sectorau carcharol. Mae tair haen i'r Cyngor, sef: • Bwrdd Gweinidogol sy'n dwyn ynghyd benderfynwyr sy'n gyfrifol am bolisi a materion sy'n ymwneud â marwolaethau yn y ddalfa yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref a'r Adran Iechyd ac amrywiaeth o sefydliadau eraill â diddordeb. • Panel Cynghori Annibynnol sy'n rhoi cyngor ac arbenigedd annibynnol i'r Bwrdd Gweinidogol. • Grŵp Ymarferwyr a Rhanddeiliaid sy'n cefnogi gwaith y Panel Cynghori Annibynnol.
Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn	Plismona (arbenigol) Mae'n amddiffyn safleoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn sydd o bwys cenedlaethol.

Corff	Swyddogaeth
Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol	Plismona (arbenigol) Mae'n mynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol (masnachu cyffuriau, arfau tanio, seiberdroseddau, camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern).
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus	Diogelu (cymorth/gwasanaeth eirioli i ddinasyddion mewn perthynas â'r system gyfiawnder) Un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae'n amddiffyn pobl yng Nghymru a Lloegr nad oes ganddynt, o bosibl, y galluedd meddyliol i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain, megis penderfyniadau ynghylch eu hiechyd a'u materion ariannol.
Y Cyfreithiwr Swyddogol a'r Ymddiriedolwr Cyhoeddus	Diogelu (cymorth/gwasanaeth eirioli i ddinasyddion mewn perthynas â'r system gyfiawnder) Mae'n helpu pobl sy'n agored i niwed am nad oes ganddynt alluedd meddyliol neu am eu bod yn ifanc, i fanteisio ar y gwasanaethau a gynigir gan y system gyfiawnder.
Y Bwrdd Parôl	Cyfiawnder Troseddol Corff annibynnol sy'n cynnal asesiadau risg o garcharorion er mwyn penderfynu a ellir eu rhyddhau'n ddiogel i'r gymuned.
Bwrdd Cyngori'r Heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr	Plismona (corff cyngori) Corff cyngori cyhoeddus anadrannol a noddir gan y Swyddfa Gartref, mae'n ystyried rheoliadau drafft o dan Ddeddf yr Heddlu 1996 ynglŷn â materion megis recriwtio, amrywiaeth a chydweithredu rhwng heddluoedd. Mae hefyd yn gweithio gyda rheolwyr a staff heddluoedd er mwyn ymateb i gwestiynau mwy cyffredinol gan yr Ysgrifennydd Cartref am newidiadau i'r heddlu a diwygio'r heddlu.
Corff Adolygu Cydnabyddiaeth Ariannol yr Heddlu	Plismona (corff cyngori ar gyflogau ac amodau gwasanaeth) Corff cyngori cyhoeddus anadrannol a noddir gan y Swyddfa Gartref, mae'n rhoi cyngor annibynnol i'r llywodraeth ar gyflogau ac amodau ar gyfer swyddogion yr heddlu ar lefel prif uwch-arolygydd neu islaw hynny.

Corff	Swyddogaeth
Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth	Cyfiawnder Troseddol (safonau proffesiynol/ymchwilio i gwynion) Mae'n cynnal ymchwiliadau annibynnol i: • gwynion a wneir gan garcharorion, pobl ifanc yn y ddalfa, troseddwy'r o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf ac ymfudwyr sy'n cael eu cadw yn y ddalfa; a • marwolaethau carcharorion, pobl ifanc yn y ddalfa, preswylwyr mangreoedd a gymeradwywyd ac ymfudwyr sy'n cael eu cadw yn y ddalfa.
Corff Adolygu Cyflogau'r Gwasanaeth Carchardai	Cyfiawnder Troseddol (corff cynghori ar gyflogau ac amodau gwasanaeth) Mae'n ystyried materion sy'n ymwneud â chyfraddau cyflog a lwfansau i'w cymhwyso at wasanaethau carchardai yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt.
Awdurdod y Diwydiant Diogelwch	Rheoleiddiol Corff cyhoeddus anadrannol gweithredol a noddir gan y Swyddfa Gartref, mae'n rheoleiddio ac yn trwyddedu'r diwydiant diogelwch preifat yn y DU.
Y Cyngor Dedfrydu	Llysoedd (canllawiau dedfrydu) Mae'n hyrwyddo mwy o gysondeb wrth ddedfrydu, wrth gynnal annibyniaeth y farnwriaeth. Mae'n llunio canllawiau ar ddedfrydu i'r farnwriaeth a gweithwyr proffesiynol ym maes cyfiawnder troseddol a'i nod yw cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o brosesau dedfrydu.
Y Swyddfa Twyll Difrifol	Rheoleiddiol Mae'n ymchwilio i achosion difrifol neu gymhleth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd ac yn eu herlyn.
Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr	Y proffesiwn cyfreithiol (rheoleiddiol) Mae'n rheoleiddio cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr.

Corff	Swyddogaeth
Y Comisiynydd Camerâu Goruchwyllo	Rheoleiddiol Mae'r Comisiynydd, a grëwyd o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 i reoleiddio'r defnydd o deledu cylch cyfyng ymhellach, yn goruchwyllo cydymffurfiaeth â'r cod ymarfer ar gyfer camerâu goruchwyllo, yr oedd yn ofynnol ei lunio o dan y Ddeddf.
Y Bwrdd Cyngori Technegol	Plismona (cyngori) Corff cyngori cyhoeddus anadrannol a noddir gan y Swyddfa Gartref, mae'n rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Cartref ar b'un a yw'r rhwymedigaethau a osodir ar ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu o dan delerau'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio yn rhesymol.
Pwyllgor Trefniadaeth Tribiwnlysoedd	Llysoedd (pennu rheolau a threfniadaeth llysoedd) Corff cyngori cyhoeddus anadrannol, mae'n gwneud rheolau ynglŷn ag arfer a threfniadaeth mewn Tribiwnlysodd Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlysoedd.
Comisiynydd Dioddefwyr	Hawliau dioddefwyr Mae'n hyrwyddo buddiannau dioddefwyr a thystion, yn annog arfer da o ran eu trin ac yn adolygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr sy'n nodi'r gwasanaethau y gall dioddefwyr ddisgwyl eu cael.
Gwasanaeth Cystodaeth Ieuenctid	Cyfiawnder Troseddol Llysoedd (rheoli a gweinyddu gweithredol) Mae'n gyfrifol am benderfynu ble y dylid rhoi plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed a anfonir neu a ddedfrydir i'r ddalfa.
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid	Cyfiawnder Troseddol Llysoedd (rheoli a gweinyddu gweithredol) Corff cyhoeddus anadrannol sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr.

Nodiadau:

- Nid yw cyrff cyhoeddus anadrannol Tribiwnlysoedd y Swyddfa Gartref wedi'u rhestru.
- Nid yw cyrff sy'n rhan o wasanaethau diogelwch neu sy'n ymwneud â gwasanaethau o'r fath, neu y mae eu rôl yn canolbwyntio ar wrthderfysgaeth, wedi'u rhestru.
- Nid yw cyrff y mae eu cylch gwaith yn ymwneud â mewnfudo wedi'u rhestru.